# CYNGOR CYMUNED LLANDDANIEL FAB

Cyfarfod o'r Cyngor: Dydd Llun, 23 Ebrill 2017, Siop yr Efail.

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

**Presennol:** Dafydd Roberts (yn y gadair), Brian Fitzgerald, Andy Wagstaff, Pauline Desch, Clair Doloriert, Cynghorydd Victor Hughes

**Ymddiheuriadau:** Ken Jones, Susannah Neill, Sarah Grawe, Cynghorydd Eifion Jones

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gan Clair Doloriert eilio gan Brian FitzGerald.

**2. Materion yn codi**

Ynghylch y cwestiwn am y gwaith ar yr ysgol: wedi cael ymateb gan Gareth Thomas, Rheolwr Gwasanaeth Pensaerniol Ynys Môn:
'Mae'r pensaer sydd wedi ei benodi wrthi edrych ar y ddau eitem yma – er mwyn eu cynnwys o fewn y cynllun safle. Nai ymateb eto pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.'

Y Cyfansoddiad – dau newid wedi eu gwneud i'r Cyfansoddiad i wneud pethau'n fwy clir.

Cais Tyddyn Eurach i ehangu'r datblygiad ei wrthod o 5-4.

**3. Cynllunio**

**Penderfyniadau Cynllunio**

**21C172A/MIN** Wedi ei ganiatáu. Bron Menai, Llanddaniel – newid ffenestri.

**Ceisiadau Cynllunio**

**21C171A/ENF** Cais ôl-weithredol yn Nhyddyn Llywarch – 2 fynedfa amaethyddol a thrac gwartheg. I lawr wrth ymyl Bryn Celli Ddu. Problem gyda thraffig efallai. Nodwyd bod rhai adegau o'r dydd yn broblem os oes gwartheg yn croesi; bysus ysgol yn mynd ar rai adegau. Dim gwrthwynebiad.
**21C174** Dymchwel modurdy ac adeiladu un newydd a chalet hefyd. Llecheiddior. O blaid, dim gwrthwynebiad.
**21C76G** 4 Maes y Coed. Cais am estyniad. Dim gwrthwynebiad.
**21C58R/ENF/LUC** Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer 19 Parc Eurach.
**21C58Q/ENF/LUC** Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer 14 Parc Eurach.
**21C58T/ENF/LUC** Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer 13 Parc Eurach.
Y tri cais yr un fath. Eisiau newid y rhain o fod yn dai gwyliau i fod yn dai parhaol. Dim llawer o fai ar yr unigolion? Y rhai a werthodd y tai iddyn nhw wnaeth dro sâl â

nhw. Adran Gynllunio heb wneud yr hyn a ddylid gael ei wneud. Hyd yn oed os nad oes mwy o dai yno, mae'r Parc yn dal i fod yno, a phobl yn byw yno yn barhaol. Pawb wedi bod yn esgeulus - anodd gweld y bydden nhw'n cael eu symud oddi yno. Ydi Parc Eurach yn mynd i droi yn stad o dai parhaol? Os ydi o, bydd rhaid i'r lle gael ei integreiddio fwy efo'r pentref. Dipyn o benbleth. Ond, hyn yn agor y drws, creu precedent i hyn. CD poeni am ddechrau rhywbeth, a phobl yn adeiladu tai gwyliau ac yn ei weld fel ffordd gyflym i mewn. Ond AW yn dweud nad ydi hyn yn gyflym mewn gwirionedd - cymryd rhai blynyddoedd.
BF Oes modd cofnodi ein bod ni yn llofnodi nad oes gan bobl hawl i fod yma yn barhaol? Hyn wedi ei wneud eisoes ond yr adran gorfodaeth heb wneud eu gwaith. Angen iddyn nhw sicrhau bod hyn ddim yn digwydd eto. Dim bai ar y Cyngor?
VH penderfyniad swyddogion fydd y ceisiadau hyn. Dim ond y swyddogion cynllunio. Cyfle i'r CC ddweud rhywbeth. Posibilrwydd o ddweud nad ydym yn gwrthwynebu ond eisiau sicrhau nad ydi hyn yn digwydd yn y dyfodol. Dim digon o swyddogion i blismona pethau fel hyn - disgwyl am gwynion gan y cyhoedd. Rhy hwyr i wneud llawer erbyn hyn - 10 mlynedd wedi pasio.
Awgrymu llythyru i ddweud nad oes gennym llawer o le i wrthwynebu yn yr achosion hon ond eisiau sicrhad gan yr Adran Gynllunio bod gorfodaeth yn mynd i ddigwydd yn y dyfodol i atal hyn rhag digwydd eto.
Pan mae datblygwr yn gwneud tai gwyliau, fe ddylai bod levy i dalu am swyddogion gorfodaeth yn y dyfodol. Fyddai hyn yn opsiwn?
VH -Cynghorwyr wedi bod yn pwyso ers sbel i gael mwy o swyddogion gorfodaeth. Y gobaith ydi y byddai hyn yn digwydd yn y dyfodol, mwy o swyddogion.

## 4. Llythyrau i'w trafod

- **Swyddfa Archwilio Cymru.** Sawl Cyngor wedi cwyno am y cynnydd yn y ffioedd eleni. Camau nesaf - asesiad monitro ansawdd gwaith y cyflenwyr, ac yn cynnwys edrych ar berfformiad archwilwyr. Am wneud gwaith ar wasanaeth trwy'r Gymraeg.
- **BDO** Ffurflenni Archwilio Cyfrifon 2016-17 wedi dod i mewn.
- **Zurich** Yswiriant angen ei drefnu eleni eto. Am yrru pris yn fuan dros ebost. Prisiau yn debygol o gynyddu. Werth holi'r llall.
- **Playsafety** Archwiliad y Cae Chwarae. Dau bris yn hwn - un ar gyfer Masnachol, y llall ar gyfer rhai sydd ddim yn fasnachol. Angen cysylltu i holi am hyn - wedi cael pris masnachol y llynedd?
- **Cyngor Sir Ynys Môn** Canlyniad etholiad diwrthwynebiad. Clair ddim yn sefyll eto ac eisiau nodi mai'r unig reswm y mae hi'n gadael ydi oherwydd ymrwymiadau eraill, yn Gadeirydd y pwyllgor Ysgol Feithrin.
- **Cyngor Sir Ynys Môn** Rhestr ymgeiswyr Cynghorwyr Sir. 5 yn sefyll. Ffarwelio â'n Cynghorwyr presennol ac yn diolch iddynt am eu cyfraniad.
- **Cyngor Sir Ynys Môn** Angen gwneud sylwadau ar y cynllun adolygu'r hawliau tramwy. Angen gwneud hyn cyn Mai 5ed. Ebostio'r ddolen at bawb.
- **Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru** Ymgynghori â pherchnogion tir i wneud pethau'n well. Am ymgynghori eto. Bydd ceisiadau unigol yn dod gerllaw. Amserlen i ddod.

## 5. Adroddiad Pwyllgor Safonau

Astudiaethau achos o bethau sydd yn mynd o'i le mewn cynghorau eraill, nid yn cyfeirio yn benodol at ein cyngor ni. Hwn wedi ei gylchredeg dros ebost i'r Cynghorwyr Cymuned i gyd. Adroddiad diddorol iawn yn dangos amryw o astudiaethau achos diddorol. Adroddiad defnyddiol yn arbennig yr adeg hon o'r flwyddyn i Gynghorwyr newydd gael bwrw golwg drosto a chael enghreifftiau o arfer da.

**6. Adroddiad o unrhyw gyfarfodydd**

Dim cyfarfodydd wedi bod.

**7. Adroddiad Cynghorydd Sirol**

Wedi bod yn gwneud gwaith twtio cyn gorffen. Adroddiad Eifion fis yn ôl wedi bod yn dda iawn ac egluro'r cyfan. VH eisiau diolch am y derbyniad y mae o wedi ei gael pan fydd o'n dod i'r cyfarfodydd. Heb fod yn aml, oherwydd ei fod o'n byw ym mhen arall y ward - Eifion yn gyfrifol am Llanddaniel a Brynsiencyn. Ymddiheuro os nad ydi'r cyngor wedi gweld Victor yn aml. Gobeithio bod pethau wedi gwella yn y Cyngor Sir. Meddwl yn sicr bod pethau'n well – pedair blynedd wedi bod yn rhai llewyrchus er bod problemau ariannol wedi bod, a hyn am fynd ymlaen am gyfnod eto. Ychydig yn bryderus am y dyfodol, fydd modd cadw'r safonau sydd wedi eu gosod. Ddim llais yn hyn ond berffaith fodlon i ateb unrhyw gwestiynau am y cyfnod sydd wedi pasio, neu rhoi unrhyw gyngor.
Diolch i bawb a dymuno'r gorau i'r Cyngor Cymuned hwn at y dyfodol. VH am ymgeisio i fod yn aelod o Gyngor Tref Llangefni.
Ar ran y Cyngor Cymuned eisiau diolch i Victor am ei holl waith dros y pedair blynedd diwethaf. Diolch i Eifion hefyd yn yr un modd am ei gyfraniad ef.

**8. Materion Ariannol**

**Pensions Regulator**

Angen ymateb erbyn mis Mai – DR am ddelio â hyn.

**J. D. Roberts**

Cynnig ei hun fel archwilydd mewnol unwaith eto. AW yn cynnig ein bod yn cadw efo JD Roberts, CD yn eilio. Am ei hysbysu o hyn.

**Incwm y mis hwn**:

Grant Cae Chwarae – £3000.00

**Gwariant y mis hwn**:

Cost y paent – £81.50 [i Dafydd] *(Cariwyd Drosodd)*
Bil MacVenture, Siglen newydd – £5092.80, yn cynnwys TAW o £848.80
J D Roberts, Archwiliad Mewnol – £69.00

**Cyfrifon 2016-17**

Crynodeb o'r cyfrifon. Strategaeth ariannol y Cyngor – angen rhywfaint o arian wrth gefn ar gyfer delio â materion fydd yn codi, ond ar hyn o bryd gwario'r arian sydd yma a'r cae chwarae yn symud ymlaen yn awr. Yn y cyfarfod nesaf trafod strategaeth ariannol.

Strategaeth ariannol i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

## 9. Unrhyw fater arall

PD Tractorau mawr yn pasio, swnllyd iawn, gyrru. Wedi mynd allan i weld un yn pasio ond dim rhif ganddo. Swnllyd iawn ac i'w clywed o bell. Peryglus iawn. BF angen cael gair efo Wendy Kay? Anodd gwneud dim heb rif. BF dod trwy'r dydd, ac amser y cynhaeaf dod gyda'r nos hefyd. Mater bach fydd cael rhif ambell un. Hwn angen bod yn un o gynlluniau'r gymuned?

Arian gennym – a hon yw'r gwyn sydd yn dod amlaf, fyddai werth ystyried cael un o'r arwyddion sydd yn ymateb i gyflymder pobl? Grantiau i'w cael ar un adeg.

BF mater ychwanegol yw maint y tractorau – fe allent fod yn cadw at y cyflymder ond mae'r maint yn eu gwneud yn beryclach.

Ceisio darganfod pwy ydyn nhw, ceisio cael rhif neu lun. Yna cael gair efo Wendy, neu Wendy i gadw llygaid.

BF Cae Chwarae. Yr anfoneb wedi dod gan MacVenture i gael siglen fasged a'r matiau oddi tano, i'w osod rhwng y llithren a'r si so. Hefyd wedi sylweddoli bod y matiau dan y siglen fawr ddim yn addas mwyach, ac yn mynd i fod yn beryglus. Yr anfoneb wedi dod a'r mwyafrif yn dod dan y grant, ond wedi holi am bris ar gyfer y matiau eraill £2990 + TAW. Lluniau o sut y bydd yn edrych.

Y broblem ar hyn o bryd yw mai teils yw'r matiau a dŵr yn cronni ac yn codi'r teils. Awgrym MacVenture yw 'soft mulch safety surface', tebyg i bark chippings o ran texture, ond yn sownd i'r llawr. Wedi holi am yr un mwyaf effeithiol a'r un fydd yn parau hiraf.

DR – angen gwneud y gwaith hwn. AW a BF am gysylltu â MacVenture i wneud y gwaith hwn wrth wneud y gwaith arall.

BF wedi gweld ei bod yn gymharol hawdd i gael arian i gael eitem newydd ond anodd iawn i gael cyllid ar gyfer cynnal a chadw. Angen edrych at y dyfodol.

AW – Môn CF wedi torri'r Fynwent Newydd, ond heb wneud yr ochrau. Cysylltu i ofyn fyddai modd iddynt dorri'r verges hefyd. Dafydd yn gwneud hyn yn y pris.

DR wedi siarad efo rhywun i gyfeiriad Bodlew. Cwyno yn gyffredinol am safon y lôn. Rhai rhannau wedi dirywio. Alan Jones – cysylltu yn uniongyrchol.

Arwyddwyd : Dafydd Roberts.

Dyddiad: 15.5.2017